

Craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19

Rhagfyr 2017

01. Crynodeb

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal sesiynau craffu gyda thri Gweinidog ynghylch y gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19, gan drafod y materion a nodir isod.

- 1.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ac i Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes am ddod i gyfarfod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 15 Tachwedd fel rhan o'n gwaith craffu ar gynigion Llywodraeth Cymru yn ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19. Mae fideo a thrawsgrifiad o'r sesiwn hon ar gael ar dudalen y Pwyllgor ar y we.
- 2.** Oherwydd amgylchiadau eithriadol, cytunodd y Pwyllgor i graffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn ysgrifenedig. Cafodd copïau o'r ohebiaeth eu cyhoeddi ar gyfer y cyfarfod ar 29 Tachwedd. Ar ôl trafod yr ohebiaeth honno, cytunodd y Pwyllgor i wahodd Ysgrifennydd y Cabinet i sesiwn graffu ariannol arall ar ôl iddo gyhoeddi ei Gynllun Gweithredu Economaidd.
- 3.** Fel yn y gorffennol, canolbwyntiodd y gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft 2018-19 ar y pedair egwyddor sylfaenol ar gyfer gwaith craffu ariannol: Fforddiadwyedd; Blaenoriaethu; Gwerth am arian; a Phroses y gyllideb.



Fforddiadwyedd

A yw'r adnoddau sydd ar gael yn ddigonol i gyflawni'r cynlluniau ac a ydynt wedi'u cydbwysu'n briodol?

Masnachfaint y Rheilffyrdd a'r Metro

4. Mewn ymateb i gwestiynau am fforddiadwyedd y fasnachfaint rheilffyrdd newydd, yng nghyd-destun yr anghydfod sy'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch £1 biliwn o gyllid refeniw (yn ystod 15 mlynedd y fasnachfaint), cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet nad yw'r mater hwn wedi'i ddatrys yn llawn.
5. Roedd darllen y byddai'r risgiau hyn yn dod yn fwy eglur yn ystod y trafodaethau â Llywodraeth y DU, ac ar ôl dewis ymgeisydd llwyddiannus, yn peri pryder i'r Pwyllgor.¹
6. Mae'r ymateb hwn yn awgrymu y bydd y cais llwyddiannus yn cael ei ddewis heb wybod yn llawn pa gyllid sydd ar gael i'w gynnal. Mae hyn yn amlwg yn risg fawr a pharhaus i un o brosiectau mwyaf blaenllaw Llywodraeth Cymru.

Casgliad 1. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro trafodaethau rhwng Gweinidogion y DU a Llywodraeth Cymru, sy'n hanfodol i lwyddiant y buddsoddiad mwyaf mewn rheilffyrdd y mae Cymru erioed wedi ei weld.

Tasglu'r Cymoedd

7. Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch fforddiadwyedd Tasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru, oherwydd nad oedd unrhyw ddyraniad cyllid ychwanegol ar gyfer y polisi hwn yn y gyllideb ddrafft. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn cwestiynu a fyddai'r Tasglu yn gallu cyflawni ei nodau – yn enwedig mewn perthynas â sgiliau a chreu swyddi – heb fwy o gyllid.

Casgliad 2. Bydd y Pwyllgor yn monitro a oes gan Tasglu'r Cymoedd gyllid digonol i gyflawni ei nodau yn ein gwaith craffu ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn.

Gyrfa Cymru

8. Er bod lefel y cyllid sy'n cael ei ddyrannu i Gyrfa Cymru ar gyfer 2018-19 yn parhau'n gyson â'r ffigur ar gyfer 2017-18, nododd y Pwyllgor fod cyllideb a nifer staff Gyrfa Cymru wedi hanneru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gan gydnabod

¹ Llythyr

adolygiad Llywodraeth Cymru o rôl Gyrfa Cymru a'r posibilrwydd o ddatblygu'r berthynas â Busnes Cymru sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, roedd aelodau'r Pwyllgor yn cwestiynu a yw lefel y cyllid sy'n cael ei ddyrannu i Gyrfa Cymru yn ddigonol i gyflawni'r weledigaeth yn *Newid Bywydau*. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad ar Gyrfa Cymru a phrentisiaethau yn ystod yr wythnosau nesaf, a bydd ganddo fwy i'w ddweud ar y mater hwn ar y pryd.

Banc Datblygu Cymru

9. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Banc Datblygu Cymru wedi cydnabod mai ei allu i godi ffioedd i dalu am ei gostau gweithredu yw'r risg unigol mwyaf sy'n ei wynebu.

Casgliad 3. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro gallu Banc Datblygu Cymru i ariannu ei hun.

Blaenoriaethu

A ellir cyfiawnhau a rhoi dadl resymegol dros y modd y rhannwyd y dyraniadau rhwng gwahanol bortffolios, rhaglenni neu sectorau, ac a ydynt yn cyfateb ag amcanion strategol y Llywodraeth?

Gwyddoniaeth, arloesi a gwyddorau bywyd

10. Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi'n barhaus mewn gwyddoniaeth, arloesi a gwyddorau bywyd, fel y nodwyd yn ei rhaglen lywodraethu, 'Symud Cymru Ymlaen'.

11. Roedd y cyllid a ddyrennir ar gyfer arloesi yn 2018-19 78 y cant yn is na'r ffigur ar gyfer 2017-18. (CHECK) Er bod Arweinydd y Tŷ a'r Phrif Chwip wedi nodi bod y gostyngiad yn y cyllid ar gyfer arloesi yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer o brosiectau cyfalaf sylweddol wedi dod i ben, roedd y Pwyllgor yn dal i bryderu ynghylch lefel y flaenoriaeth a roddir i arloesi gan Lywodraeth Cymru.

12. Mynegodd y Pwyllgor bryderon tebyg ynghylch y gostyngiad yn yr arian a ddyrennir i'r gwyddorau bywyd. Mae cyllid cyfalaf a ddyrennir wedi gostwng o £9.7 miliwn yn 2017-18 i £3.7 miliwn yn 2018-19. Eto, nododd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip mai'r rheswm dros y gostyngiad mewn cyllid oedd bod nifer o brosiectau cyfalaf sylweddol wedi dod i ben.

13. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y gostyngiad mewn cyllid yn rhoi'r argraff i ddarpar fuddsoddwyr bod y Llywodraeth yn cynnig llai o gefnogaeth i'r sector hwn. Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrth y Pwyllgor pe bai cynigion ar gyfer canolfannau arloesi yn dod i law, y byddai'r cynigion hynny'n cael eu hystyried ac y gellir dod o hyd i gyllid ychwanegol ar eu cyfer.

Argymhelliad 1. Os yw cyllid cyfalaf ar gael i fuddsoddi mewn canolfannau arloesi, fel y nodwyd gan y Gweinidog, mae'r Pwyllgor yn teimlo'n gryf y dylid ei nodi a'i ddangos yn y gyllideb, gan ganiatáu i'r Llywodraeth fod yn rhagweithiol wrth chwilio am bartneriaid buddsoddi, yn hytrach nag ymateb i geisiadau a all ddod i law.

Yr economi sylfaenol

14. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am eglurhad Ysgrifennydd y Cabinet o gefnogaeth i'r economi sylfaenol. Mae'r Pwyllgor wedi clustnodi hwn fel maes ar gyfer gwaith yn y dyfodol, a bydd yn edrych yn fanylach ar sut mae'r arian hwn yn cael ei wario.

Gwerth am arian

A yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n dda; hynny yw, o'r adnoddau a roddir i mewn, beth yw'r allbynnau a'r canlyniadau a gyflawnir, ac a yw hyn yn cyflawni o ran bod yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol?

Deuoli'r A465

15. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei lythyr y byddai dull cyllido arloesol, gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweddill y gwaith o ddeuoli'r A465. Mae'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn gymharol newydd ac nid yw wedi'i brofi rhyw lawer. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i fonitro maes o law sut y gall y model hwn ddangos gwerth am arian, o'i gymharu â benthycia ar gyfraddau llog sy'n parhau'n hanesyddol isel, neu ariannu drwy gyllidebau cyfalaf craidd. Yn dilyn datganiad Ysgrifennydd y Cabinet ar 27 Tachwedd, nododd y Pwyllgor bryderon ynghylch y cynnydd yng nghostau'r prosiect hwn. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ofyn rhagor o gwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar y mater hwn.

Rhoi seilwaith digidol ar waith

16. Yn ei phapur i'r Pwyllgor, canolbwyntiodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar seilwaith digidol wrth drafod maes TGCh.

Argymhelliad 2. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ragor o fanylion am strategaeth Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r seilwaith digidol newydd y mae'n helpu i'w sefydlu, yn enwedig mewn perthynas â sut y mae'n credu y bydd y seilwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus a'r economi.

Teithio llesol

17. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am y wybodaeth ychwanegol am yr adolygiad o gyllid ar gyfer teithio llesol. Amlygodd y Pwyllgor Menter a Busnes ddiffyg ffynhonnell benodol o gyllid i gefnogi teithio llesol yn ei adolygiad cychwynol o'r Ddeddf Teithio Llesol.

Casgliad 4. Croesewir yr adolygiad o gyllid ar gyfer teithio llesol. Bydd y Pwyllgor yn gwneud gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol manwl ar y Ddeddf Teithio Llesol ym mis Mawrth 2018, a bydd yn ymgynghori ar y mater hwn yn ddiweddarach y mis hwn.

Y broses gyllidebol

A yw prosesau'r gyllideb yn effeithiol a hygyrch, ac a oes integreiddio rhwng gwaith cynllunio a pherfformiad a threfniadau rheoli ariannol y llywodraeth a'r adrannau?

Cenedlaethau'r dyfodol a ffordd liniaru'r M4

18. Mae'r ymchwiliad cyhoeddus i ffordd liniaru'r M4 wedi nodi gwahaniaeth barn rhwng cynrychiolwyr cyfreithiol Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

19. Yn ei atebion i'r Pwyllgor, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth wedi ailadrodd barn yr adran fod ei chefnogaeth i ffordd liniaru'r M4 yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Mae hefyd yn nodi bod holl waith yr adran yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Nid yw hyn yn glir i'r Pwyllgor.

20. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet yn awyddus i gydweithio â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod y strategaeth drafnidiaeth ehangach yn gwneud y cyfraniad gorau posibl at lesiant Cymru. Croesewir hyn.

Casgliad 5. Y bwriad wrth lunio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oedd creu deddfwriaeth drawsnewidiol a oedd yn newid y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn ymgorffori'r ffyrdd newydd o weithio a meddwl yn ei gwaith, nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw drawsnewid amlwg o'r ffordd y caiff arian ei ddyrannu.

21. Ar ôl trafod yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet, mynegodd y Pwyllgor bryderon hefyd ynghylch y dull o fenthyca a gynigir ar gyfer ffordd liniaru'r M4, a bydd yn trafod y mater hwn mewn sesiwn graffu yn y dyfodol.